



Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

Heol y Bardd, Porth Tywyn,

Sir Gaerfyrddin SA16 0NL

Ffôn:- 01554 832101

Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

www.ysgolparcytywyn.co.uk

Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies

04/12/2020

DYDDIADAU A GWYBODAETH BWYSIG

Annwyl Rieni,

Gweler isod dyddiadau allweddol, gwybodaeth ac arweiniad pwysig mewn perthynas â'r wythnosau nesaf yn yr ysgol.

1) Ciniawau Nadolig Ysgol.

Oherwydd yr heriau cyfredol o ran cadw dosbarthiadau / swigod ar wahân, bydd cinio Nadolig eleni yn cael ei gynnal dros 2 ddiwrnod fel a ganlyn:

Bydd y cyfnod sylfaen (meithrin llawn amser i Flwyddyn 2) yn cael eu cinio Nadolig ddydd Mercher 9fed Rhagfyr. Ni fydd unrhyw ddarpariaeth bwyd poeth ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 (Blynnyddoedd 3 i 6) ar y diwrnod hwn ac felly bydd angen i'r disgyblion hyn ddod â phecyn bwyd i'r ysgol ar ddydd Mercher.

Bydd Cyfnod Allweddol 2 (Blynnyddoedd 3 i 6) yn cael eu cinio Nadolig ddydd Iau 10fed Rhagfyr. Ni fydd unrhyw ddarpariaeth bwyd poeth ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen (meithrin llawn amser i Flwyddyn 2) ar y diwrnod hwn ac felly bydd angen i'r disgyblion hyn ddod â phecyn bwyd i'r ysgol ar ddydd Iau.

Bydd angen i chi archebu ymlaen llaw a thalu am ginio Nadolig trwy ParentPay:

<https://app.parentpay.com/public/client/security/#/login>

2) Siwmperi Nadolig

Bydd yr ysgol yn dathlu diwrnod Siwmpwr Nadolig ar ddydd Gwener Rhagfyr 11eg ac felly anogwn y plant i wisgo siwmperi Nadolig i'r ysgol y diwrnod hwn. Caniateir i blant hefyd wisgo siwmperi Nadolig i'r ysgol yn ystod wythnos olaf y tymor, sef 14-18 / 12 os dymunwch.

3) Fideo Cân Nadolig yr Ysgol.

Yn anffodus, mae'r pandemig presennol yn golygu nid ydym wedi medru â chynnal ein gwasanaeth sioeau Nadolig / carolau eleni. Rydym wedi bod yn brysur yn llunio sypreis i rieni (o fewn cyfyngiadau'r canllawiau gweithredol cyfredol ar gyfer ysgolion) a bydd hyn yn cael ei rannu gyda chi cyn diwedd y tymor.

4) Cardiau Nadolig / Anrhegion i staff

Fel rhan o asesiad risg ysgolion i leihau'r risg o drosglwyddo fiwrs ac i amddiffyn cymuned yr ysgol, ni ddylai disgyblion ddod ag unrhyw eitemau i'r ysgol ac eithrio'r hyn sydd ei angen ar gyfer eu dysgu hy bag bach, bocs cinio, potel ddŵr a chôt ac ati. Oherwydd hyn, gofynnwn yn garedig i ddisgyblion PEIDIO â dod ag unrhyw eitemau eraill gan gynnwys cardiau Nadolig, gemau ac ati i'r ysgol i'w dosbarthu. Yn anffodus ni fydd y plant hefyd yn gallu dod ag unrhyw deganau / gemau i'r ysgol ar ddiwrnod olaf y tymor.

Mae llawer o rieni yn dymuno prynu anrhegion i staff ar ddiwedd y tymor. Rwy'n hynod falch o'r tîm yma ym Mharc y Tywyn ond gofynnwn yn garedig i chi beidio â phrynu unrhyw roddion i staff y Nadolig hwn. Er ein bod yn gwerthfawrogi eich mynegiadau o ddiolchgarwch am ymroddiad a gwaith caled y staff yn ystod yr amseroedd heriol a diflino hyn, ein nod yn y pen draw yw sicrhau iechyd a diogelwch cymuned gyfan yr ysgol. Yr anrheg orau y gallwn ni i gyd ei derbyn o dan yr hinsawdd sydd ohoni yw sicrhau ein bod ni i gyd yn cadw at ganllawiau'r ysgol a Llywodraeth Cymru hy i gadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb, golchi dwylo, dilyn gweithdrefnau TTP cywir, cyfyngu'r lleoedd rydyn yn ymweld ag yn ein cymuned ac ati, i helpu i amddiffyn ein gilydd fel y gallwn ni i gyd fod yn iach a threulio Nadolig iach a hapus gyda'n teuluoedd.

5) Dyddiadau ysgol

Yn dilyn yr ohebiaeth gan Mr Gareth Morgans yn nodi y bydd ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn aros ar agor am wythnos olaf y tymor, cadarnhaf mai diwrnod olaf y tymor fydd dydd Gwener 18fed Rhagfyr. Bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ddydd Llun Ionawr 4ydd 2021 ar gyfer diwrnod HMS a bydd y disgyblion yn dychwelyd ar gyfer dechrau tymor y Gwanwyn ar ddydd Mawrth Ionawr 5ed 2021.

Mae gwyliau hanner tymor fel a ganlyn: 15fed-21 / 02/2020

Rydym hefyd wedi dyrannu diwrnod HMS arall ar gyfer dydd Llun Chwefror 22ain 2021 ac felly bydd y plant yn dychwelyd ar ôl y gwyliau hanner tymor ar ddydd Mawrth 23ain Chwefror 2021.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus yn ystod yr amseroedd heriol a digynsail hyn.

C Davies

Pennaeth

